**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Awst 2025

Annwyl Peredur,

**YSTADEGAU ALLDRO CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU 2023-24**

Cyhoeddodd Cyllid a Thollau EF ystadegau alldro blynyddol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn 2022-24 ar 10 Gorffennaf 2025. Bydd y Pwyllgor am fod yn ymwybodol bod effaith yr alldro hwn ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy gysoni, bellach wedi cael ei chytuno ar y cyd â Thrysorlys EF. Nodir hyn mewn nodyn technegol ar y cyd a gyhoeddwyd ar 21 Awst 2025.

Mae'r ystadegau alldro yn dangos bod cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) yn 2023-24 wedi cynhyrchu £2,968 miliwn, i fyny £350 miliwn neu 13.4% ers 2022-23. Cynyddodd Refeniw Treth Incwm cyfatebol o 10 ceiniog yn y bunt ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn 2023-24 gan arwain at Addasiad i'r Grant Bloc (BGA) o £2,782m. Mae hyn yn golygu bod effaith gyllidebol net CTIC yn +£187m yn 2023-24.

Roedd alldro CTIC £173 miliwn (6%) yn uwch na'r hyn a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn yr Hydref 2022 ac fe'i defnyddiwyd yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Roedd yr alldro ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn uwch na'r hyn a ddefnyddiwyd yn y BGA cysylltiedig yng Nghyllideb 2023-24. O ganlyniad roedd y BGA £49 miliwn yn uwch.

Y gwahaniaeth rhwng y refeniw treth incwm a'r addasiadau i'r grant bloc a ddefnyddir yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a'r alldro terfynol yw +£124 miliwn. Caiff hyn ei gymhwyso i gyllideb 2026-27 fel swm cysoni.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ystadegau alldro ar gael yma:

[Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru - 2023 i 2024 (www.gov.uk)](https://www.gov.uk)

Gellir gweld y nodyn technegol ar y cyd yma:
https://www.llyw.cymru/cysoni-cyfraddau-treth-incwm-cymru-2023-i-2024-nodyn-technegol-ar-y-cyd-gan-lywodraeth-cymru-a-thrysorlys-ei-mawrhydi

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language